**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/00018/18

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

llywydd@llgc.org.uk

31 Ionawr 2018

Annwyl Rhodri

Diolch am dy lythyr dyddiedig 10 Ionawr 2018 ynghylch â chynlluniau'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatblygu Archif Ddarlledu Genedlaethol a fydd yn dwyn ynghyd archifau darlledwyr amlwg yng Nghymru, gan gynnwys y BBC, ac yn creu mynediad atynt. Rwy'n croesawu'r prosiect a hefyd uchelgais y Llyfrgell Genedlaethol i greu'r adnodd yma.

Deallaf fod y Llyfrgell eisoes wedi derbyn cyllid datblygu Cam 1 oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'ch bod yn bwriadu cyflwyno cynnig am gyllid Cam 2 a hefyd achos busnes manwl yn ystod Gwanwyn 2018. Nodaf eich bod yn gofyn am werth miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi eich cynnig am fuddsoddiad gwerth £4.9 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd swm sylweddol o arian cyfatebol a chymorth ar ffurf gwasanaethau hefyd yn cael ei ddarparu gan y Llyfrgell Genedlaethol, ochr yn ochr ag ymgyrch i godi tua £0.5 miliwn.

Fel y gallaf ystyried y cais hwn yn ffurfiol gofynnaf i'r Llyfrgell roi'r manylion canlynol i'm swyddogion.

- Fersiynau diweddaraf cynnig y Llyfrgell am gyllid Cam 2 a hefyd achos busnes manwl ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Cadarnhad ynghylch pa gyfran o ddeunyddiau archif y BBC fydd ar gael ar ffurf ddigidol i'r Llyfrgell Genedlaethol ac i ddefnyddwyr yr hyb digidol
- Copi o'r arolwg cyflwr sydd wedi'i gwblhau ynghylch deunyddiau archif y BBC ac amcangyfrif o gost unrhyw waith cadwraeth a allai fod yn ofynnol ar gyfer y casgliad
- Cyfiawnhad o'r cynnig na fydd y BBC yn darparu unrhyw gefnogaeth barhaus na chyllid refeniw ar gyfer rheoli a chynnal yr archif

- Manylion ynghylch unrhyw Femoranda Dealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth ffurfiol â lleoliadau arfaethedig yr hyb digidol, crynodeb o'r hyn a gaiff ei gynnig i ddefnyddwyr a'r hyn y bydd modd iddynt fanteisio arno ymhob lleoliad ac unrhyw amcangyfrifon o safbwynt y defnydd a fydd yn cael ei wneud o'r archif.
- Y newyddion diweddaraf ynghylch hynt y gwaith o godi arian ar gyfer y prosiect hwn, a chadarnhad ynghylch unrhyw gyllid (o ffynonellau heblaw am y Llyfrgell Genedlaethol) sydd wedi'i sicrhau.

Er eich bod yn nodi yn eich llythyr na fydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu unrhyw gyllid refeniw ychwanegol ar ôl y cyllid ar ddiwedd y prosiect, mae gennyf bryderon ynghylch yr ymrwymiadau ariannol parhaus a'r ymrwymiadau parhaus o ran staff y bydd gofyn i'r Llyfrgell ymdopi â nhw. Ar ôl derbyn y casgliadau bydd angen iddynt gael eu diogelu a'u cynnal am byth. Bydd hyn, yn anochel, yn cael effaith ar allu'r Llyfrgell yn y dyfodol i ddyrannu adnoddau a chynnig gweithgareddau.

A fyddech cystal â rhestru'n glir yr holl gostau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â'r Archif Ddarlledu? Dylai hyn gynnwys y costau ar gyfer cynnal a staffio'r hybs digidol; digideiddio at ddibenion creu mynediad /neu ddiogelu, catalogio, a darparu metadata a fydd yn galluogi pobl i chwilio ar-lein a darganfod; gofynion o ran storio a gofalu am gasgliadau.

Rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn gwbl glir ynghylch effaith yr ymrwymiad hwn ar weithgareddau presennol y Llyfrgell a sut y caiff unrhyw benderfyniad i ddirwyn i ben unrhyw wasanaethau yn sgil datblygu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol ei reoli.

Edrychaf ymlaen at dderbyn papur briffio manwl oddi wrth fy swyddogion, a chlywed mwy am gynlluniau'r Llyfrgell ar gyfer y gwaith hwn cyn gynted ag y byddwch wedi darparu'r wybodaeth hon.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DET/00574/18

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
Aberystwyth
SY23 3BU

19 Gorffennaf 2018

Annwyl Rhodri,

Diolch i ti am dy lythyr dyddiedig 5 Mehefin a'r wybodaeth am y Prosiect Archifau Darlledu. Hoffwn gadarnhau fy mod yn cefnogi dyhead y Llyfrgell Genedlaethol i sicrhau mynediad cyhoeddus i archif BBC Cymru. Rwy'n ymwybodol y byddai darparu mynediad i'r archif hwn yn ychwanegiad gwerthfawr at yr adnoddau sydd eisoes ar gael i ymchwilwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol. Byddai hefyd yn rhoi cyfle gwych i'r Llyfrgell ddenu cynulleidfaoedd newydd.

Erbyn hyn, mae fy swyddogion wedi cael cyfle i edrych yn fanwl ar yr wybodaeth ategol hon. Ond, yn anffodus, ar hyn o bryd nid oes modd imi neilltuo'r arian cyfatebol y gofynnwyd amdano fel rhan o gais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn wir, mae gennyf amheuon difrifol ynghylch a fyddai'n ddoeth i'r Llyfrgell gyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd. Rwy'n bryderus iawn pe byddai'r cais presennol yn llwyddiannus, y byddai'n golygu lefel o risg ariannol i'r Llyfrgell, a Llywodraeth Cymru fel prif gyllidwr y Llyfrgell, yn y tymor hwy nad ydw i'n credu y gellir ei chyfiawnhau na'i derbyn.

Yn fy marn i, mae angen adolygu'r cais presennol yn drwyadl a dylid ei ail-lunio, lle bo angen, gan ystyried ffactorau ariannol, risg a chynaliadwyedd ochr yn ochr â'r cynlluniau ar gyfer mynediad ac ymgysylltu.

Rwy'n gwybod y byddai hyn yn golygu na fydd modd i'r Llyfrgell anfon cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri erbyn y dyddiad a fwriadwyd. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno fod angen strwythur cryf o'r dechrau ar brosiect mor bwysig â hwn. Mae hyn yn gofyn am lawer mwy o sicrwydd nad oes mwy o risgiau i'r prosiect nag o fanteision, er mor amlwg yw'r rheini.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu cael gohebiaeth Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n siŵr eich bod am ystyried y llythyr hwn, a thrafod ei gynnwys â’r Llyfrgellydd.  Ar ôl ichi gael cyfle i wneud hynny, bydd croeso i Linda Tomos drefnu cyfarfod â’m swyddogion yn MALD i drafod y mater hwn ymhellach. Rwy’n gobeithio, wedyn, y bydd yn bosibl i’r Llyfrgell fwrw ymlaen â’r prosiect hwn.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-DET-2863-18

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

13 Awst 2018

Annwyl Rhodri

Ysgrifennaf atat yn dilyn fy llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf ynglŷn â'r Archif Ddarlledu Genedlaethol.

Fel y gwyddost mae'n siŵr, mae fy swyddogion wedi cwrdd â'r Llyfrgellydd a staff ar lefel uwch i drafod y prosiect. Gofynnodd fy swyddogion am ragor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiad manylach o effaith ariannol yr Archif Ddarlledu Genedlaethol ar y Llyfrgell Genedlaethol o 2024 ymlaen. Mae'r holl wybodaeth hon wedi'i hadolygu'n ofalus.

Ar y sail hon, nid oes modd imi neilltuo'r £1 filiwn o arian cyfalaf y gofynnwyd amdano fel rhan o gais am arian cyfatebol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Hoffwn ail-bwysleisio'r pwynt a wnes yn fy llythyr blaenorol - yn y tymor hir, credaf y gallai'r Archif Ddarlledu beri lefel o risg ariannol i'r Llyfrgell, a Llywodraeth Cymru fel prif gyllidwr y Llyfrgell, nad oes modd ei chyfiawnhau na'i derbyn.

Hoffwn bwysleisio fy mod o blaid yr egwyddor o ddatblygu Archif Ddarlledu Genedlaethol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, credaf fod angen adolygu'r cais presennol yn drwyadl a dylid ei ail-lunio, lle bo angen, gan ystyried ffactorau ariannol, risg a chynaliadwyedd ochr yn ochr â'r cynlluniau ar gyfer mynediad ac ymgysylltu.

Rwy'n poeni am gyflwr y casgliad. Deallaf bod yr Archif yn cael ei chadw ar hyn o bryd mewn amgylchiadau sy'n anaddas o safbwynt cadwraeth tymor hir archif genedlaethol; ac nad yw'r BBC wedi cymryd unrhyw gamau i adfer na diogelu'r archif cyn iddi gael ei digideiddio oherwydd cyfyngiadau amser ac arian – er bod elfennau o'r casgliad yn dangos tystiolaeth o ddirywiad. Er bydd arian y Loteri yn sicrhau cyfleuster storio priodol ar gyfer y casgliad, ymddengys mai cyfrifoldeb y Llyfrgell Genedlaethol fydd cyflawni unrhyw waith gofynnol i'w ddiogelu, gan gynnwys unrhyw waith adfer a fydd yn ofynnol yn y dyfodol, heb unrhyw ymrwymiad ariannol oddi wrth y BBC. Gallai hynny fod yn gostus tu hwnt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â hynny, hoffwn i'r trefniadau o ran mynediad, a hyfywedd a chynaliadwyedd y Canolfannau Clipiau gael eu hystyried ymhellach. Rydym yn gwybod bod y disgwyliad o gael mynediad i wybodaeth ar adeg ac mewn man sy'n gyfleus i ddefnyddwyr yn cynyddu. A ellid ystyried datblygu model sy'n seiliedig ar fynediad ar-lein, yn hytrach nag un sy'n seiliedig ar fynediad i nifer cyfyngedig o safleoedd ffisegol? Rwy'n meddwl bod angen ystyried yr agwedd hon ymhellach.

Rwy'n dal i boeni'n fawr am yr effaith y gallai'r prosiect hwn ei chael ar sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell yn y dyfodol pan fydd cymorth ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dod i ben yn 2023. Yn seiliedig ar yr hyn a wneir ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau bod y refeniw a geir o gymorth grant yn aros yn wastad, a chynnydd o 1% y flwyddyn mewn taliadau cyflog, mae'r amcanestyniadau yn nodi y bydd y cronfeydd refeniw wrth gefn yn dangos diffyg (o £19 mil) erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, a bydd y diffyg hwn yn cynyddu i £3.242 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Rhagwelir diffyg blynyddol o £0.986 miliwn yn 2023-24. Pan fydd y prosiect yn dod i ben, amcangyfrifir y bydd costau refeniw'r Archif Ddarlledu Genedlaethol o 1 Ionawr 2024 ymlaen yn £0.408 miliwn y flwyddyn a byddai hynny ar ben y diffyg blynyddol o £0.986 miliwn.

Rwy'n gwybod dy fod yn dymuno ymateb mwy cadarnhaol gennyf ond yn anffodus ni allaf gefnogi'r cais ar ei ffurf bresennol am y rhesymau a nodir uchod.

Cofion,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/DET/4056/18

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

20 Tachwedd 2018

Annwyl Rhodri

**Archif Ddarlledu Genedlaethol**

Rwy'n ddiolchgar i'r Llyfrgell am y dogfennau ychwanegol a drosglwyddwyd i'm swyddogion ar 12 Tachwedd ynghylch yr Archif Ddarlledu Genedlaethol.

Deallaf y bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn trafod ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cyflwyno'r cais i sefydlu'r Archif Darlledu Genedlaethol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar 23 Tachwedd. Ysgrifennaf atat yn awr er mwyn sicrhau dy fod ti, yr Ymddiriedolwyr, a'r Llyfrgellydd Cenedlaethol yn glir ynghylch fy marn ar y mater hwn a bod modd i'r llythyr yma gael ei gylchredeg i aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod.

Nid yw fy safbwynt ar yr Archif Ddarlledu Genedlaethol wedi newid. Yn seiliedig ar gynllun y prosiect ac ar yr amcangyfrifon ariannol, rwy'n parhau i fod yn amharod i ymrwymo i'r £1 miliwn o gyllid cyfalaf y gofynnwyd amdano, nac i roi cymorth strategol i'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn ei ffurf bresennol.

Nodais yn fy llythyr ar 13 Awst fod y prosiect, yn fy marn i, yn gofyn am adolygiad ac ail-lunio trylwyr, a bod angen cymryd camau i sicrhau na fyddai'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn peryglu sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell Genedlaethol yn y dyfodol. Ni chynhaliwyd adolygiad o'r fath. Rwy'n ymwybodol bod ymdrechion wedi'u gwneud i fynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hwy yr Archif Ddarlledu Genedlaethol drwy drafodaethau gyda BBC Cymru a chyda phartneriaid eraill y prosiect. Rwy'n siomedig bod y gwaith hwnnw, a'r gwaith arall ar flaen gynllunio ariannol, wedi ei wneud mor hwyr yn y broses.

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gennych, mae'n glir bod rhai o weithgareddau presennol y Llyfrgell yn debygol o gael eu heffeithio'n negyddol yn ystod cyfnod y prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Nid yw'n amlwg i mi fod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i reoli gweithgareddau sefydledig tra bod yr Archif Ddarlledu Genedlaethol yn cael ei datblygu. At hynny, nid yw'r wybodaeth sydd wedi'i darparu am gynaliadwyedd yr Archif

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ddarlledu Genedlaethol yn y tymor hir yn tawelu fy meddwl. Sylweddolaf fod ewyllys da tuag at y prosiect gan BBC Cymru a chan bartneriaid y Ganolfan CLIP ond rwy'n dal i bryderu am fethodoleg y prosiect ac am yr effaith a gaiff yr Archif Ddarlledu Genedlaethol ar sefyllfa ariannol ac ar weithgareddau'r Llyfrgell pan ddaw arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri i ben.

Rwyf bob amser wedi croesawu uchelgais y Llyfrgell i ddarparu mynediad i archif BBC Cymru ac i sefydlu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol, ond mae'n rhaid rheoli hynny yng nghyd-destun cyffredinol sefyllfa ariannol y Llyfrgell a rolau a swyddogaethau eraill. Rhaid i'r Llyfrgell barhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd, yn enwedig ei statws fel yr unig lyfrgell adnau cyfreithiol yng Nghymru. Mae'n ddymuniad gennyf weld y Llyfrgell yn datblygu ac yn darparu mynediad at gasgliadau newydd gan ddefnyddio dulliau cyflwyno arloesol. Fodd bynnag, rhaid i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr megis creu Archif Darlledu Genedlaethol gael eu cynllunio a'u rheoli'n fwy gofalus yn y dyfodol.

Cofion,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

Dydd Iau, 10 Ionawr 2019 09.00

**Yr Archif Ddarlledu Genedlaethol**

1. Mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi cefnogaeth gyson i uchelgais y Llyfrgell Genedlaethol i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol (ADdG). Fodd bynnag, fel y Dirprwy Weinidog Diwylliant, fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod y datblygiad mawr hwn yn cael ei gefnogi gan waith cynllunio busnes ac ariannol cadarn fel pan fydd y cyllid y gofynnir amdano gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i sefydlu'r ADdG yn dod i ben yn 2024, gellir ymgorffori'r ADdG yng ngweithgaredd dyddiol y Llyfrgell Genedlaethol.

2. Rhaid i'r ADdG gael ei gynllunio a'i sefydlu, ac yna'i gynnal o 2024 ymlaen, heb gael effaith niweidiol ar swyddogaethau presennol a sefyllfa ariannol y Llyfrgell Genedlaethol. Byddai'n anghyfrifol peidio â sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â datblygiad mor sylweddol wedi'u nodi. Mae'n rhesymol disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol fod wedi gwneud cynlluniau i liniaru ar a rheoli'r risgiau hyn mewn hinsawdd ariannol a fydd yn parhau i fod yn anodd, ac er mwyn i'r cynlluniau hyn gael eu craffu a'u cytuno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a'u cyfathrebu i Lywodraeth Cymru fel prif gyllidwr y Llyfrgell.

3. Yn y pen draw, rhaid i'r Llyfrgell Genedlaethol feddu ar strategaeth ymadael gredadwy a chynllun ariannol ymlaen llaw sy'n rhoi digon o sicrwydd y bydd yr ADdG yn gynaliadwy pan ddaw'r cyllid prosiect i ben.

4. Rwyf wedi bod yn gohebu â Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol ar y mater hwn am y deuddeng mis diwethaf, ac amgaeir copïau o'm gohebiaeth er gwybodaeth i chi.

5. Ysgrifennodd Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol ataf yn gyntaf i ofyn am gyfraniad o £1,000,000 i'r prosiect ar 31 Ionawr 2018; ac o ran gwaith cynnal a chadw parhaus ar yr ADdG ar ôl 2023. Nododd ei lythyr *'Mae'r Llyfrgell yn*

*bwriadu talu'r costau hyn o'i hadnoddau ei hun ac nid yw'n rhagweld y bydd angen cyllid refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru'.*

6. Yn fy ateb ar 31 Ionawr, gofynnais am ddadansoddiad clir o'r costau refeniw parhaus sydd ynghlwm â'r Archif Darlledu, ac am eglurder ar yr effaith y byddai'r ymrwymiad hwn yn ei gael ar weithgareddau presennol y Llyfrgell. Codais fater cynnal a chadw archif BBC Cymru Wales a'r Canolfannau Clip arfaethedig yn benodol, gan mai'r rhain yw'r agweddau ar y prosiect sy'n gysylltiedig â mwyafrif y costau refeniw o 2024. Mae’n bwysig deall bod archif BBC Cymru Wales eisoes wedi’i ddigido. Darperir mynediad cyhoeddus i’r archif trwy gyfrwng yr archif ddigidol, ac ni fydd unrhyw fynediad cyhoeddus i’r casgliad ffisegol.

7. Dros 4 mis yn ddiweddarach, ar 5 Mehefin, nododd yr ymateb gan y Llywydd y byddai costau refeniw parhaus yr ADdG o 2024 oddeutu £450k y flwyddyn.

8. **Mae'r Llyfrgell eisoes yn rhagweld y bydd diffyg blynyddol o £986k yn bodoli erbyn hynny a byddai'r costau hyn yn ychwanegol at y swm hwnnw.** Nid ar chwarae bach y gellir ychwanegu baich ariannol arall, ac nid oedd yn glir bod cynllun yn cael ei ddatblygu i reoli costau ychwanegol yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, na beth fyddai effaith integreiddio'r ADdG.

9. Ar sail hynny, ymatebais ar 19 Gorffennaf gan wrthod cefnogi’r prosiect ar ei ffurf bresennol, a chan ofyn am adolygiad o'r cynnig prosiect i gynnwys delio â’r ystyriaethau ariannol, risg, cynaliadwyedd, a'r cynlluniau ar gyfer mynediad ac ymgysylltu.

10. Cyfarfu fy swyddogion â'r BBC ym mis Medi, gan fynegi ein pryder nad oedd y BBC yn gwneud cyfraniad ariannol parhaus i'r prosiect pan fyddai cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dod i ben.

11. Yn dilyn gohebiaeth bellach dros yr haf, ysgrifennais at y Llywydd ar 20 Tachwedd yn gwrthod rhoi cefnogaeth i'r ADdG oherwydd fy mhryder y gallai'r prosiect barhau i ychwanegu'n sylweddol at y risgiau o ran cynaliadwyedd y

Llyfrgell Genedlaethol. Ar 23 Tachwedd, penderfynodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol i beidio â bwrw ymlaen a chyflwyno'r cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri erbyn y dyddiad cau, sef 4 Rhagfyr.

12. Dylid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar y cynllunio ariannol a'r cynllunio tymor hwy yn llawer cynharach yn y broses o ddatblygu'r prosiect, ond mae'r trafodaethau'n parhau rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a phartneriaid y prosiect, ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi nodi y gall ganiatáu rhywfaint o amser ychwanegol i alluogi cyflwyno cais.

13. Mae'r **cynigion diweddaraf** a gafwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi y gall gwtogi **y costau refeniw ychwanegol** o 2024-25 ymlaen i **£256k** y flwyddyn. Mae'r BBC bellach wedi cynnig swm o £20k y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd o 2024, felly'r costau ychwanegol net yw £236k y flwyddyn. Mae'r Llyfrgell yn awr yn y broses o ystyried sut y gall leihau ei gwariant er mwyn ariannu'r costau ychwanegol hyn. Fodd bynnag, nid oes ganddi gynlluniau eto sydd wedi'u datblygu'n ddigonol i nodi'r meysydd penodol. Archwilir y rhain yn ystod 2019.

14. Os bydd y Llyfrgell yn methu â chyflawni'r arbedion cost, byddai'n golygu efallai y bydd angen i'r Llyfrgell gysylltu â Llywodraeth Cymru i ariannu'r costau rhedeg o £236k, neu gyfran o'r costau, yn dibynnu ar faint o arbedion a gyflawnwyd. Fel arall, gallai'r Llyfrgell leihau'r prosiect i lefel fach am gost amcangyfrifedig o £100k y flwyddyn.

15. Mae'r gost o storio'r archif darlledu ffisegol (o ble y mae copïau digidol i ddarparu mynediad i'r archif wedi'u creu) yn cynrychioli £55k o'r gost. Fel y nodir uchod, mae BBC Cymru wedi nodi y bydd yn cyfrannu £20k y flwyddyn tuag at gynnal a chadw'r archif am gyfnod o dair blynedd o 2024 ymlaen.

16. Bydd y BBC hefyd yn darparu cyfraniad mewn da o £40k y flwyddyn dros yr un cyfnod i helpu gyda chlirio hawliau cyfranwyr, a fydd, rwy'n gobeithio, yn caniatáu i faint y cynnwys sydd ar gael ar-lein gynyddu'n raddol, gan adeiladu

ar y 1000 o glipiau a fydd ar gael ar wefan y Llyfrgell yn ystod cyfnod y prosiect.

17. Mae'r Llyfrgellydd Cenedlaethol wedi gofyn am gyfarfod â'm swyddogion ym mis Ionawr gan gynnwys y BBC, a hoffwn i drafodaethau pellach ddigwydd er mwyn edrych ar unrhyw gymorth ychwanegol y gallai BBC Cymru Wales ei ddarparu.

18. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn cynnal trafodaethau gyda phartneriaid y Canolfannau Clip ynghylch dyfodol y cyfleusterau hyn o 2024. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi nodi y byddai'n fodlon i adolygiad gael ei gynnal, cyn i'r cyllid prosiect ddod i ben. Byddai'r adolygiad yn gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y Canolfannau Clip, yn seiliedig ar y profiad a enillwyd yn ystod y prosiect, ac yn llywio datblygiad model darparu mynediad a threfniadau ariannu yn y dyfodol, os canfyddir bod y canolfannau wedi gweithredu'n llwyddiannus. Mae partneriaid y Canolfannau Clip wedi nodi eu bod, mewn egwyddor, yn barod i ystyried trefniant cyllid partneriaeth gyda'r Llyfrgell Genedlaethol o 2024.

19. Wrth i'r trafodaethau hyn fynd rhagddynt, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion roi cyngor pellach i mi. Byddaf yn cwrdd â'r Llywydd a'r Llyfrgellydd Cenedlaethol ym mis Chwefror pan fyddant yn cael cyfle i gyflwyno canlyniad y gwaith presennol o fynd i'r afael â chynaliadwyedd yr ADdG.